Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Bensiwn newydd y Wladwriaeth**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **NSP2WER 01/22**

# Cynnwys



1




**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2




**Pensiynau**

Tudalen 5

3




**Sut i wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth**

Tudalen 7

4



**Ar ôl i chi wneud cais**

Tudalen 13

# Cynnwys


5




**Help arall ag arian**

Tudalen 14

# 1 Cyflwyniad




Mae **Pensiwn newydd y Wladwriaeth** yn arian y gallech ei gael os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r Llywodraeth yn talu Pensiwn newydd y Wladwriaeth i bobl, trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau.





Mae'r wybodaeth hon yn dweud wrthych sut i wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth.

# 2 Pensiynau



Mae **pensiwn** yn arian i fyw arno pan rydych yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.




Ar oedran **Pensiwn y Wladwriaeth** gallwch barhau i weithio, neu gallwch ddewis ymddeol.


**Esbonio oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

Eich oedran **Pensiwn y Wladwriaeth** yw'r oedran ieuengaf y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth.

I gael mwy o wybodaeth am eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i:
www.gov.uk/state-pension-age




Os dewiswch barhau i weithio y tu hwnt i'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch barhau i hawlio'ch Pensiwn newydd y Wladwriaeth.




Mae **Pensiwn y Wladwriaeth** yn arian y gallech ei gael gan y llywodraeth.

Os gallwch ei gael, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn talu'r arian hwn i chi.

I ddarllen mwy am bensiynau, ewch i www.gov.uk/cymraeg. Chwiliwch am '**Cyflwyniad i Bensiwn newydd y Wladwriaeth – Hawdd i'w Ddarllen**'.

# 3 Sut i wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth





Mae'n rhaid i chi fod o oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth.




Gallwch wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych:


- Dyn a aned **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 1951
- Menyw a aned **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 1953.




Cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth dylech gael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dweud wrthych sut i'w hawlio.




Mae'n rhaid i chi wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth i'w gael.




Efallai y byddwch am ofyn i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu pan fyddwch yn gwneud cais.

Gallwch hefyd ofyn i Gyngor ar Bopeth neu Age Cymru am help.

Mae dolenni i'w gwefan ar ddiwedd y canllaw hwn.





Gallwch wneud cais:

- ar-lein
- dros y ffôn



Pan fyddwch yn gwneud cais bydd angen y canlynol arnoch:




- Dyddiad eich priodas, partneriaeth sifil, neu ysgariad diweddarach.




- Dyddiadau unrhyw amser a dreuliwyd yn byw neu'n gweithio dramor.




- Manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar y cyd.


## Sut i wneud cais ar-lein




Gwneud cais ar-lein yw'r ffordd gyflymaf i gael eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth ar-lein. Ewch i [www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd/sut-i-wneud-cais](http://www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd/sut-i-wneud-cais)

# Sut i wneud cais dros y ffôn



Gallwch wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth dros y ffôn.




Gall ffrind neu aelod o'r teulu ein ffonio os na allwch ddefnyddio'r ffôn.



Ffoniwch y Gwasanaeth Pensiwn.

Ffôn: 0800 731 7936
Ffôn testun: 0800 731 7013



Mae'r llinell ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm



Rhif ffôn Saesneg:
0800 731 7898

Rhif ffôn testun Saesneg:
0800 731 7339



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn, gallwch ddefnyddio Relay UK:


18001 ac yna 0800 731 7898

Arferai Relay UK gael ei alw'n Next Generation Text (NGT)

# 4 Ar ôl i chi wneud cais

Adran Gwaith a Phensiynau

Byddwch yn cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddweud wrthych faint o Bensiwn newydd y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael.



Gallwch siarad â rhywun yn eich Canolfan Bensiwn leol a all esbonio faint o arian y byddwch yn ei gael.

I ddod o hyd i'ch rhif ffôn Canolfan Bensiwn, ewch i https://findpensioncentre.dwp.gov.uk/



Gall ffrind neu aelod o'r teulu ein ffonio os na allwch ddefnyddio'r ffôn.

# 5 Help arall ag arian




Os ydych yn hawlio Pensiwn y Wladwriaeth a bod gennych **incwm isel** efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn




I ddarganfod mwy am Gredyd Pensiwn ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am 'Credyd Pensiwn Hawdd i'w Ddarllen'.

Am fwy o wybodaeth am Bensiwn newydd y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd

Am help i gynllunio'ch ymddeoliad, ewch i www.gov.uk/plan-for-retirement

Am fwy o wybodaeth am y budd-daliadau y gallech eu cael, ewch i www.gov.uk/browse/disabilities

Gallwch hefyd gael help gyda gwneud cais am fudd-daliadau gan Gyngor ar Bopeth (www.citizensadvice.org.uk/cymraeg) a Age Cymru (www.ageuk.org.uk/cymru)

Am help gyda phroblemau arian, ewch i: www.moneyandpensionsservice.org.uk